www.gov.wales

# Llywodraeth Cymru
# Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cartrefi Conwy– L148

Rhagfyr 2017

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
e-bost: housingregulation@wales.gsi.gov.uk

ISBN Digidol 978-1-78859-051-8
Hawlfraint y Goron 2017

# Proffil

Mae'r Grŵp yn cynnwys Cartrefi Conwy Cyfyngedig (“Cartrefi Conwy” neu “y Grŵp”), Landlord Cymdeithasol Cofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddynt reolau elusennol, a Creating Enterprises C.I.C, sef is-gwmni a berchenogir yn llawn, a sefydlwyd yn 2015 ac sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol. Sefydlwyd Cartrefi Conwy ar ôl i stoc tai sylweddol gael ei throsglwyddo'n wirfoddol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mis Medi 2008.

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp yn deillio o tua 2858 o gartrefi anghenion cyffredinol a thros 988 o leoedd mewn tai â chymorth. Mae hefyd yn darparu cartrefi lesddaliad.

Daeth 50 o gartrefi o dan reolaeth Cartrefi Conwy yn 2016/17 ac mae wedi ymrwymo i adeiladu 33 o gartrefi newydd erbyn 2017/18.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, trosiant y Grŵp oedd £21.3m (2016: £19.9m), y gwarged am y flwyddyn oedd £1.7m (2016: diffyg £0.4m) ac roedd yn cyflogi 202 o aelodau o staff (2016: 186).

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2015/16** | **2016/17** | | **2015/16** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 3.7% | 12.0% | dd/g | 19.1% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | (2.0)% | 8.1% | dd/g | 8.7% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 1.9% | 2.1% | dd/g | 1.6% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 82% | 82% | dd/g | 74% |
| Benthyciadau'r Grŵp £ miliwn | 28.5 | 28.5 | 40.5 | dd/g |
| Mae gan y Grŵp ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Rhagfyr 2017

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol – Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.